

Cyllidebu ar gyfer y galw? Defnyddio data i gynllunio gofal preswyl i oedolion

Cyngor Sir Ddinbych

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol ag adran 17(2)(d), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Gallai ein canfyddiadau hefyd lywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol wrth asesu camau'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant, yn unol ag Adran 15(1)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei aildddefnyddio, rhaid i chi ei aildddefnyddio'n gywir a rhaid iddo beidio â bod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Os oes angen unrhyw help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni yn post@archwilio.cymru

Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg – byddwn yn ymateb gan ddefnyddio'r un iaith â chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Prif Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	13
Atodiadau	14
1 Ynglŷn â'n gwaith	15

Ciplun archwiliad

- 1 Aethom ati i adolygu a yw Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yn defnyddio data i gynllunio cyllidebau ei wasanaeth gofal preswyl i oedolion (ARC) yn effeithiol. Ystyriodd yr archwiliad a oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno i gynllunio'n dda. Ystyriodd hefyd a yw'n defnyddio data – a sut y mae'n gwneud hynny – i'w helpu i gynllunio'r adnoddau y bydd eu hangen arno i ateb y galw am y gwasanaeth, ac i'w helpu i fod yn ariannol gynaliadwy yn y tymor hir. Adolygodd hefyd a yw'r Cyngor yn gwybod a yw ei gynllunio yn effeithiol ai peidio.
- 2 Cwblhawyd yr adolygiad hwn ym mhob un o'r chwe chyngor yng ngogledd Cymru rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026.

Pam mae hyn yn bwysig

- 3 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn.¹ Mae'r broses hon yn cynnwys rhagweld yr incwm a'r gwariant y bydd cyngor yn eu hwynebu er mwyn ateb y galw am wasanaethau a gofynion cyfreithiol. Rhaid i gynghorau wneud hyn yn unol â'r adnoddau sydd ar gael iddynt ac ystyried pwysau allanol, fel chwyddiant. Gall cynghorau ddefnyddio amrywiaeth o ddata ariannol a data perfformiad i'w helpu i wneud hyn. Gall hyn gynnwys ei wariant yn y gorffennol, a'i dueddiadau disgwylidig o ran galw, chwyddiant a dyraniadau cyllid.
- 4 Ar draws cynghorau, mae nifer o wasanaethau yn gwario mwy na'r gyllideb mewn meysydd lle mae'r galw am wasanaethau yn codi costau, megis gofal cymdeithasol. Gall diffyg cynlluniau cadarn sy'n seiliedig ar y galw arwain at bwysau ariannol, ansawdd gwasanaeth is, neu gyfleoedd a gollwyd i gefnogi'r rhai y mae arnynt angen cymorth fwyaf. Bydd mynd i'r afael â hyn yn allweddol i wella cynaliadwyedd ariannol a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Yr hyn a ganfuom

- 5 Mae'r Cyngor wedi gwario mwy na'r gyllideb ar gyfer gofal preswyl i oedolion dros y tair blynedd diwethaf, gyda'r flwyddyn ddiweddaraf yn dangos gorwariant sylweddol. Nid yw'r Cyngor yn defnyddio'r data sydd ganddo yn gyson i gynllunio ei gyllidebau. Mae wedi nodi lle gall wneud gwelliannau i'r broses gynllunio ac wedi recriwtio dadansoddwr data i'w helpu i wneud gwell defnydd o'i ddata.

Yr hyn rydym yn ei argymhell

- 6 Rydym wedi gwneud un argymhelliad i'r Cyngor ynghylch defnyddio data yn gyson i wella cywirdeb y gyllideb.

Ein canfyddiadau

Mae'r Cyngor wedi gorwario ei gyllideb ar gyfer gofal preswyl i oedolion yn y blynyddoedd diweddar

- 7 Ers 2023-24, mae gwasanaeth gofal preswyl i oedolion y Cyngor wedi gwario £3.3 miliwn yn fwy na'r gyllideb – sef tua 5% o'r gyllideb a ddyrannwyd. Mae'r gorwariant hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor.¹
- 8 Fel gwasanaeth seiliedig ar alw, mae'n heriol i'r Cyngor ragweld a chynllunio'n gywir. Rydym yn cydnabod, o ganlyniad, y byddai'n afrealistig i gynghorau gyrraedd eu cyllidebau gofal preswyl i oedolion yn union. Fodd bynnag, mae cael yr amcangyfrif gorau, cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i lywio'r gwaith o gynllunio'r gyllideb, yn helpu cynghorau i leihau gorwariant neu danwariant.

¹ Adroddiad Archwilio Cymru 2024 ar gynaliadwyedd ariannol Cyngor Sir Ddinbych

Arddangosyn 1: gwariant refeniw llawn ar ofal preswyl i oedolion o'i gymharu â'r gyllideb, 2023-24 i 2025-26 (mewn £'000)

	2023-24	2024-25	2025-26	Cyfanswm
Cyllideb	£20,156	£22,013	£23,694	£65,863
Gwariant gwirioneddol	£21,406	£22,186	£25,558	£69,150
Gwahaniaeth	£1,250	£173	£1,865	£3,287
Gwahaniaeth canrannol	6.2% drosodd	0.8% drosodd	7.9% drosodd	5.0% drosodd

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych

Mae gan y Cyngor amrywiaeth o wybodaeth i'w helpu i bennu ei gyllideb gofal cymdeithasol i oedolion, ac mae wedi cymryd camau i'w gwella ymhellach.

- 9 Mae gan y Cyngor amrywiaeth o wybodaeth i gynllunio ei gyllideb ar gyfer gofal preswyl i oedolion, gan gynnwys:
 - rhagolygon poblogaeth;
 - amcangyfrifon chwyddiant;
 - gwybodaeth fyw am alw gan wasanaethau cysylltiedig;
 - gwybodaeth fanwl am gostau; a
 - data hanesyddol ar alw.
- 10 Mae cael amrywiaeth o wybodaeth briodol yn cynyddu'r tebygolrwydd y gall y Cyngor gynllunio ei gyllidebau seiliedig ar alw yn effeithiol.
- 11 Mae'r Cyngor wedi nodi bylchau yn y wybodaeth y mae'n ei defnyddio ac wedi cymryd camau i'w cau. Er enghraifft, oherwydd problemau meddalwedd, dim ond un flwyddyn o wybodaeth hanesyddol am alw y mae tîm ARC wedi gallu ei gweld. Mae'r Cyngor wedi disodli'r system TG er mwyn monitro'r galw yn fwy manwl. Nododd hefyd fwllch yng nghywirdeb ei ragamcanion costau cartrefi gofal. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio meddalwedd sy'n ei alluogi i gymharu costau â darparwyr rhanbarthol eraill. Drwy nodi'r bylchau hyn a gweithredu, mae'n debygol y bydd gan y Cyngor wybodaeth well i'w helpu i bennu cyllidebau mwy cywir yn y dyfodol.

Nid yw'r Cyngor yn defnyddio ei ddata ar gyfer pob rhan o'i broses gyllidebu

- 12 Mae'r Cyngor yn cymharu data yn gadarn ac yn gyson ag awdurdodau eraill gogledd Cymru. Er enghraifft, mae'n edrych ar wybodaeth gan gynghorau eraill gogledd Cymru ac ar wybodaeth gan asiantaeth allanol sy'n edrych yn benodol ar gostau gofal preswyl. Yna, mae'r Cyngor yn cymryd y wybodaeth ranbarthol hon ac yn ei haddasu i'w sefyllfa ei hun. Mae cael gwybodaeth ehangach am y sector a'i haddasu ar gyfer amgylchiadau lleol yn helpu i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gosod cyllideb ystyrlon.
- 13 Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i gyfrifo rhannau o'i gyllideb ARC. Fodd bynnag, mae rhannau eraill yn seiliedig ar farn broffesiynol nad yw'n cael ei chefnogi'n glir gan ddata. Wrth baratoi cyllideb 2026-27, roedd y Cyngor yn rhagweld pwysau chwyddiant a phwysau o ran galw ym maes gofal preswyl i bobl hŷn. Defnyddiodd y Cyngor fethodoleg fanwl i gyfrifo chwyddiant costau ar gyfer tua hanner ei welyau. Roedd yr amcangyfrif hwn yn £562,000. Yna, cynyddodd y Cyngor yr amcangyfrif hwn i £1 filiwn, yn seiliedig ar farn broffesiynol. Mae'n aneglur sut y gall hyn gefnogi chwyddiant costau ar gyfer y galw presennol a'r cynnydd disgwyliedig yn y dyfodol.
- 14 Ar gyfer gofal iechyd meddwl ac anableddau cymhleth, ystyriodd y Cyngor chwyddiant a'r galw disgwyliedig wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2026-27. Drwy adolygu ei becynnau gofal iechyd meddwl i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer pob preswlydd, mae'r Cyngor yn bwriadu atal y galw rhag cynyddu. Drwy gysylltu cynlluniau gwasanaeth â chyllidebau, gall y Cyngor lunio amcangyfrifon mwy gwybodus.
- 15 Nid oes gan y Cyngor ffordd benodol o gyfrifo faint o ofal y mae'n ei ariannu ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, ar gyfer 2025-26, cadwodd yr un gyllideb â 2024-25. Mae'r sector yn cael lefelau uchel o gostau a phwysau galw. Mae peidio ag ystyried y pwysau hyn wedi arwain cost net wirioneddol o £603,000 yn erbyn cyllideb o £134,000 yn 2025-26.

- 16 Byddai cofnodi sail pob barn broffesiynol yn cryfhau'r broses o bennu'r gyllideb ac yn helpu i wella cywirdeb yn y dyfodol. Mae defnyddio barn broffesiynol heb sail dystiolaeth glir hefyd yn cynyddu'r risg o gynnwys rhagfarn anfwriadol.
- 17 Gweithredodd y Cyngor drefniadau i ariannu risgiau ariannol yn ystod 2025-26. Nododd bwysau chwyddiant a galw cyn dechrau'r flwyddyn a'u hariannu mewn canolfan gost ar wahân Galluogodd hyn i'r Cyngor ariannu elfennau o risg yn ystod y flwyddyn, gan barhau i allu mesur perfformiad yn erbyn targedau ariannol. Er gwaethaf ariannu pwysau disgwyledig ar wahân, aeth ARC dros ei gyllideb ac uwchlaw'r pwysau disgwyledig ar gyfer 2025-26.
- 18 Mae'r Cyngor yn cymryd camau er mwyn helpu i reoli risgiau hirdymor a allai effeithio ar y gwasanaeth. Er enghraifft, mae'n defnyddio tueddiadau'r galw a chanlyniadau gwasanaethau er mwyn helpu i lywio penderfyniadau. Mae Rhaglen Drawsnewid y Cyngor yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar, ail-alluogi ac annibyniaeth i leihau costau yn y dyfodol mewn gofal cymdeithasol i oedolion ochr yn ochr â sicrhau'r profiad gofal ac urddas gorau i breswylwyr. Mae'r gwasanaeth wedi defnyddio rhagamcanion galw i ehangu a moderneiddio cyfleusterau gofal er mwyn diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio ac achosion gofal sy'n dod yn fwyfwy cymhleth. Mae defnyddio data i lywio penderfyniadau yn helpu'r gwasanaeth i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig wrth ddiwallu anghenion preswylwyr.

Nid yw'r Cyngor wedi cymhwyso'r hyn a ddysgodd o berfformiad yn y gorffennol yn llwyddiannus i osod cyllideb yn y dyfodol

- 19 Mae gan y Cyngor brosesau ar waith i fonitro gwariant ar ofal oedolion yn erbyn y gyllideb. Er enghraifft, mae'r Cabinet a'r Bwrdd Trawsnewid yn cael adroddiadau misol ar berfformiad y gyllideb. Mae'r Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cyfarfod bob pedwar mis i drafod gwariant o gymharu â'r gyllideb. Mae hyn yn helpu swyddogion i weld a deall amrywiadau sylweddol o'r gyllideb arfaethedig.
- 20 Mae'r gyllideb gofal cymdeithasol i oedolion a'r cynllun gwasanaeth blynyddol yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol y Cyngor. Er enghraifft, mae'r cynllun gwasanaeth yn cyfeirio at flaenoriaethau strategol a dangosyddion corfforaethol y Cyngor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gofal preswyl i oedolion yn cefnogi amcanion cyffredinol y Cyngor.
- 21 Nid yw'r Cyngor wedi dadansoddi'n llawn y pwysau cyllidebol cynyddol ym maes gofal preswyl i oedolion. Mae'n ymwybodol bod gofal a ariennir ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd yn achosi amrywiadau anghymesur yn y gyllideb, ond nid yw eto wedi'u dadansoddi i gryfhau'r broses o lunio cyllidebau ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi cyflogi wyth dadansoddwr data newydd er mwyn helpu i greu rhagamcaniadau ac ymchwilio i achosion sylfaenol gorwariant. Mae hyn yn debygol o helpu'r Cyngor i ddeall yn well sut mae'n pennu cyllidebau seiliedig ar alw.
- 22 Mae dull y Cyngor o ymdrin â'r risg o orwario yn un adweithiol. Yr ymagwedd bresennol yw:
 - Ceisio talu am y gorwariant o gynilion o fewn y gwasanaeth.
 - Ystyrio a ellir talu am y gorwariant sy'n weddill o wasanaethau eraill.
 - Defnyddio cronfeydd wrth gefn os nad yw'n bosibl gosod yn erbyn y gwasanaeth.

Nid yw dibynnu ar gynilion heb eu cynllunio, tanwariant a chronfeydd wrth gefn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd nac yn lliniaru'r effaith bosibl. Byddai mabwysiadu dull mwy penodol yn cefnogi'r tîm a'r Cyngor i ddiogelu ei gynaliadwyedd ariannol.

Argymhellion

- A1** Dylai'r Cyngor gryfhau cadernid ei gyllidebau sy'n seiliedig ar alw, gan ddefnyddio a dangos yn gyson sut y mae wedi defnyddio data costau a galw sydd ar gael i lywio penderfyniadau cyllidebol dros y tymor byr a'r tymor canolig (**paragraffau 13 i 16**).

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ymdrin â defnydd y Cyngor o ddata wrth gynllunio ei gyllidebau ar gyfer y gwasanaeth seiliedig ar alw, sef Gofal Preswyl i Oedolion. Roedd hyn yn cynnwys gofal preswyl a nyrsio i oedolion 18 oed a hŷn, boed hynny'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol neu wedi'i gomisiynu. Ystyriodd a oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno, ac a yw'n defnyddio data – a sut y mae'n gwneud hynny – i lywio'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw, er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Adolygodd hefyd a oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cynllunio'r gyllideb yn ARC yn effeithiol ai peidio.

Cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio

Cwestiynau

A oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno wrth gynllunio ei gyllideb ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw?

A yw'r Cynghorau'n defnyddio data i lywio'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw?

A oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cynllunio cyllidebau ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw yn effeithiol?

Meini prawf

Wrth ddatblygu'r meini prawf archwilio, rydym wedi defnyddio canllawiau CIPFA ar gynllunio i ddarparu gwerth da mewn gwasanaeth seiliedig ar alw Cynllunio i Ddarparu Gwerth Da mewn Gwasanaeth Seiliedig ar Alw.

Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad y dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau – adolygwyd dogfennau perthnasol y Cyngor, megis y gyllideb a phapurau'r pwyllgor;
- dadansoddi data – gwnaethom edrych ar ddata a ddefnyddiwyd gan y Cyngor wrth bennu ei gyllideb;
- cyfweiliadau – gwnaethom gyfweld â swyddogion allweddol, gan gynnwys:
 - Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd
 - Prif Swyddog Cyllid a Sicrwydd
 - Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd
 - Swyddog A151

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni eu gwaith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir i ddisgrifio Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain a nodir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.